

CFA17 Unigolyn 07

Senedd Cymru | Welsh Parliament

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol |
Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee

Cymraeg i bawb? | Cymraeg for all?

Ymateb gan: Unigolyn 07 | Evidence from: Individual 07

1. Beth yw'r prif rwystrau sy'n atal defnydd ehangach o'r Gymraeg mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg, a beth allai helpu i newid hyn?

Ar wahan i'r canolfan Gymraeg sy ym Merthyr, dw i ddim yn siwr ble dw i'n gallu siarad Cymraeg. Dyw llawer o siopau/busnesau/gwasanaeth ddim yn dangos y bathodyn oren neu arwydd arall, a dyw'r staff ddim wastad yn gwisgo lanyard neu bathodyn. Oes modd hyrwyddo'r defnydd o rheina?

2. Pa fath o ofodau a chyfleoedd a allai annog mwy o ddefnydd o'r iaith, a chynyddu hyder o ran ei defnyddio, mewn ardaloedd lle mae defnydd o'r iaith o ddydd i ddydd yn gyfyngedig?

Lleoliadau i oedolion cwrdd gyda'r nos (am ddim) heb fod mewn tafarn!

Cyfleoedd i rieni pan mae'r plant mewn sesiwn allgyrsiol yn yr un adeilad neu'n agos os yn bosib.

Clybiau ieuenctid, mae nhw'n colled mawr i blant yn eu harddegau. Angen mawr i helpu gyda pryder, sgiliau cymdeithasol sy wedi dioddef yn fawr yn enwedig ers Cofid.

3. A allwch chi rannu enghreifftiau o fentrau neu weithgareddau llwyddiannus sydd wedi annog defnydd o'r Gymraeg mewn ardaloedd lle mae defnydd o'r iaith yn gyfyngedig?

Menter Iaith Soar. Mae sawl dysgwyr yn cwrdd yng nghanolfan Soar cyn eu dosbarth Cymraeg, ac ar ddiwrnodau eraill er mwyn ymarfer neu i fod mwyn awyrgylch Cymraeg.

Yr Hen Lyfrgell, Y Poth. Mae grwpiau'n cwrdd yno'n wythnosol ac maen nhw hyrwyddo digwyddiadau Cymraeg.

4. Pa fath o ofodau a chyfleoedd a allai annog mwy o ddefnydd o'r iaith, a chynyddu hyder ynddi, mewn ardaloedd lle mae defnydd o'r iaith o ddydd i ddydd yn gyfyngedig?

Mae technoleg yn helpu gyda dysgu geirfa a phatrymau, sgiliau gwrando a chlywed acennau gwahanol ond nid gyda cynnal sgwrs yn y byd go iawn.

Falle, gall AI yn helpu? Oes modd datblygu rhywbeth sy'n gallu cael sgwrs lafar ?

5. Pa effaith, yn eich barn chi, y mae digwyddiadau diwylliannol fel Eisteddfodau cenedlaethol neu wyliau Cymraeg yn ei chael ar y defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â llai o siaradwyr Cymraeg?

Roedd yr Eisteddfod ym Mhontypridd y llynedd, ardal agos i fi ac wedi gweld mwy o arwyddion dwyieithog yn y siopau/busnesau lleol a wedi clywed mwy o bobl yn siarad ac yn dysgu. Mae Menter Iaith RCT yn gweithio'n galed iawn i gadw'r bwrlwm yn mynd.

Mae agwedd pobl lleol wedi newid oherwydd bod croeso iddyn nhw/bobl di-Gymraeg.

6. Sut y gellid addasu neu wella'r digwyddiadau hyn (boed yn rhai mawr neu fach o ran maint) i wasanaethu cymunedau â llai o siaradwyr Cymraeg yn well?

Cynnal digwyddiadau tebyg, llai mewn trefi/pentrefi er mwyn i bobl heb geir neu ble mae'r gwasanaeth bws ddim yn aml mynychu.

7. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech dynnu sylw'r Pwyllgor atynt mewn perthynas â dull Llywodraeth Cymru o gefnogi'r Gymraeg mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg?

Sefydlu canolfannau Cymraeg. Mae canolfan Soar yn ofod croesawgar a diogel ble mae pobl yn teimlo'n gyffyrddus nes iddyn nhw godi eu hyder i siarad mewn llefydd eraill.
